BETH ALLWCH CHI EI WNEUD?

Y CYFNOD SYLFAEN

Dathlwch Addysg Grefyddol gyda'r plant ieuengaf yn eich ysgol trwy wneud pethau y byddant yn eu mwynhau ac yn eu cofio. Dechreuwch yn ifanc! Dyma'r amser i'w dal gyda'r cyffro a'r dirgelwch sy'n gysylltiedig â deunydd crefyddol. Symbylwch eu chwilfrydedd, heriwch nhw i holi cwestiynau, bwydwch eu dychymyg a rhowch ymdeimlad o ryfeddod iddynt.

Dathlwch iaith crefydd

Siaradwch ac anogwch y plant i siarad; mae'r geiriau'n hudol! Cyn belled a bo'r plant yn gallu dweud y geiriau, gallant eu defnyddio i storio delweddau a syniadau. Beth bynnag ydych yn ei addysgu, dewiswch eiriau crefyddol allweddol (tri dyweder), defnyddiwch nhw ac arhoswch i weld pa mor dda mae'r plant yn eu cofio a'u defnyddio hefyd.

Mae stori'r Beibl am Jona yn ffefryn, yn arbennig gydag effeithiau sain! Y tu mewn i fol y pysgodyn mawr, mae Jona yn gweddïo i Dduw oherwydd "mae iachawdwriaeth yn dod gennyt ti". Defnyddiwch y gair *iachawdwriaeth* yng nghyd-destun y stori ac archwiliwch hyn; gadewch i'r plant ddweud y gair yn uchel a mwynhau ei sŵn. Defnyddiwch y gair eto yn nes ymlaen mewn stori arall, er enghraifft: Yr Iesu a Sacheus: Luc 19:1-10 ("Mae Iachawdwriaeth wedi dod i'r tŷ hwn heddiw"). Efallai y gallech ychwanegu *maddeuant* fel allweddair arall ac yna efallai, ar ôl ychydig mwy o straeon, y bydd y plant yn dod atoch, fel sydd wedi digwydd i mi, yn gofyn pryd y byddant yn cael stori arall am iachawdwriaeth.

Dathlu amrywiaeth

Un o'r ffyrdd gorau o gyflwyno plant i gyfoeth crefydd yw defnyddio arteffactau crefyddol; maent yn gyffrous ac yn hygyrch i blant. Dadorchuddiwch wrthrych dirgel, yn araf ac yn fwriadol, ac yna rhowch y gwrthrych yn nwylo'r plant. Mae hyn yn dod â'r byd crefyddol yn fyw ac yn ei wneud yn ddiriaethol ac yn gyffrous iawn. Mae ffigyrau cysegr Hindŵaidd lliwgar a disglair yn hudolus. Defnyddiwch un i gyflwyno dysgu am ŵyl megis pen-blwydd Krishna neu Diwali. Dathlwch gyda phobl o ffydd a gwahoddwch blant i sôn am sut y maent yn dathlu yn eu teuluoedd. Defnyddiwch eicon poced bach neu retablo i gyflwyno storïau am yr Iesu. Rhowch amser i blant edrych, cyffwrdd, holi cwestiynau a rhannu eu syniadau cyn adrodd storiau iddyn nhw.

Dathlwch a bwydwch ddychymyg y plant

Lle bynnag y bo hynny'n bosibl, crëwch ymateb mewn Addysg Grefyddol sy'n galluogi'r plant i fod yn berchen ar y deunydd. Rhowch ddigonedd o gyfleoedd iddyn nhw chwarae rôl.

Gellir adrodd stori'r Geni, wedi'i gosod mewn cyd-destun llyfr sy'n sanctaidd i rai pobl, ac yna ei hactio mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys defnyddio pypedau neu ffigyrau wedi'u gweu neu wneud stabl o gymeriadau. Gall y plant ail-fyw ymweliadau â mannau addoli neu ddysgu am ddathliadau neu seremonïau crefyddol yn nychymyg y plentyn ei hun mewn sefyllfa chwarae rôl. Nid oes ots os yw'r babi

dol wedi'i fedyddio "yn enw'r tad a'r brawd…" neu os yw'r papur chauri yn cael ei chwifio dros y dosbarth neu os yw'r ymweliad â'r gwrdwara yn cael ei wneud i sŵn siant "Wali...wali...wali" (yn lle Waheguru!) Mae'r profiad wedi cael ei ddal ac mae'n cael ei fewnoli.

Dathlu crefydd yn y gymuned

Gwahoddwch bobl o'r gymuned i'r ysgol i sôn am grefydd fel y mae'n cael ei fyw gan bobl leol. Gofynnwch i'r offeiriad lleol ddod â'i urddwisg i'r ysgol a'i gwisgo i sôn am yr hyn y mae'n ei wneud, a chwarae rôl bedydd neu briodas hyd yn oed. Yna defnyddiwch ddol offeiriad gan ei gwisgo a'i dadwisgo i ymestyn addysg y plant trwy chwarae. Gwahoddwch y rhieni i'r ysgol i sôn am sut mae gwyliau'n cael eu dathlu yn eu cartrefi a rhowch gyfle i'r plant flasu bwydydd dathlu.

Dathlwch ffydd y plant

Gwrandewch ar lais y plentyn 'crefyddol' a dathlwch ffydd byw plant go iawn. Os ydych yn ddigon ffodus i gael cynrychiolaeth amrywiol a chyfoethog o ffydd yn eich ysgol, gadewch i'r plant siarad dros eu hunain; os nad yw eich cymuned yn un amrywiol, crëwch bresenoldeb y plant hynny trwy ffotograffau. Mae cwrdd â ffydd trwy rywun o'r un oed â nhw yn rhoi ystyr ffydd grefyddol yn ei gyd-destun i blentyn ifanc. Boed yn ferch fach sy'n canu cân Haleliwia gan fod "Duw yn ei chalon" neu'r bachgen bach sy'n rhoi'r gorau i chwarae er mwyn mynd i'r mosg pan mae'n clywed yr Alwad i Weddïo, neu'r teulu sy'n dathlu Janamashtami, gŵyl geni Krishna, yn y mandir, neu unrhyw un o enghreifftiau tebyg, mae'r neges yn glir: mae'r rhain yn bobl go iawn, sy'n gwneud y pethau hyn gan fod eu ffydd yn Nuw yn bwysig iddyn nhw; mae'n gwneud gwahaniaeth i'w bywydau. Fel ym mhob Addysg Grefyddol dda, mae'r cyfarfodydd hyn yn codi cwestiynau ac yn rhoi lens i blant edrych trwyddi ar eu bywydau eu hunain.

Mae dysgu am barti Bismillah sy'n digwydd pan fo plant Mwslimaidd yn mynd i ysgol Islamaidd yn bedair oed i ddechrau dysgu'r Qu'ran yn annog cwestiynau am yr hyn y mae plant eraill yn ei wneud ar ôl ysgol, pam maent yn cael partïon a beth maent yn ei ddysgu ar gof; mae hefyd yn gyfle i sôn am ddysgu a sut ydym yn dathlu dysgu.

Dathlu crefydd yn eich amgylchedd lleol

Ewch am dro; defnyddiwch yr amgylchedd lleol trwy fynd â'r plant allan. Agorwch lygaid y plant i'r hyn sydd o'u cwmpas ac anogwch nhw i godi cwestiynau am ddibenion gwahanol adeiladau. Os yw eich ysgol yn gwasanaethu cymuned amrywiol, bydd dewis cyfoethog o adeiladau i ganolbwyntio arnynt; ewch allan a gadewch i'r plant dynnu ffotograffau ohonynt. Os nad yw'r adnodd hwnnw gennych, defnyddiwch un neu ddau o eglwysi lleol ond hefyd ffotograffau o adeiladau traddodiadol o gymunedau ffydd eraill (tri efallai).

Rhowch ddetholiad o ffotograffau o adeiladau i'r plant a gofynnwch iddynt siarad am yr hyn a welant, gan dynnu sylw at nodweddion cyffredin a gwahaniaethau. Gallwch naill ai wahodd plentyn o deulu crefyddol i sôn am fynd i'w man addoli neu dywedwch stori wrth y plant am ddau blentyn dychmygol sy'n mynd i'r eglwys ac am yr hyn y maent yn ei wneud yno. Gallai'r plant awgrymu pam fod rhai pobl yn hoffi mynd i'r eglwys a beth sy'n gwneud y lle'n arbennig iddyn nhw. Gwnewch yr un peth gyda man addoli arall, naill ai yn y gymuned neu yn rhywle arall ac yna, os yn bosibl, ewch i archwilio sut brofiad fyddai ymweld â man pererindod megis y Deml Aur, eto i greu presenoldeb plentyn o ffydd.

Anogwch y plant i fynd allan i'r amgylchedd lleol (a thu hwnt, gyda'u rhieni) â chamera digidol i recordio'r adeiladau crefyddol y maent yn eu gweld.

Yn fwy na dim, **adroddwch** storïau wrth y plant. Dathlwch gyfoeth y traddodiadau naratif sydd wrth wraidd pob crefydd. Mae lle i ddarllen yn uchel i blant, ond Addysg Grefyddol yw'r lle i adrodd storiau, gan edrych i lygaid eich gwrandawyr, ychwanegu at yr effaith gyda'ch amseriad a gwneud i'r plant ryfeddu at bob ymdrech ddramatig y gallwch ei chreu!

Mae pob stori yn cael effaith ar ei wrandawyr, ond mae straeon cysegredig yn gwneud hynny'n fwy nag unrhyw un arall. Mae dylanwad stori ar ein bywydau yn ddifrifol ac, oherwydd hynny, mae plant yn haeddu gallu cael gafael ar stori ffydd yn llawn, i fynd i mewn iddi a bod yn rhan ohoni. Ond os yw'r stori yn cwmpasu tir cysegredig, dim ond trwy ffydd… neu trwy'r dychymyg, y gellir dod o hyd iddi.

Yn yr ystafell ddosbarth, ac yn arbennig gyda phlant ifanc, rhaid defnyddio'r dychymyg ac er mwyn sicrhau nad ydynt yn camu dros y trothwy i gred crefyddol, rhaid dod â nhw i bresenoldeb y stori ac yna eu tynnu oddi yno rywsut. Gellir cynnal defodau mynediad syml megis cynnau cannwyll stori, neu ganu cloch neu ddal edau neu chwarae nodau (yr un nodau) ar far clychau ar ddechrau stori i wahodd y plentyn i fynd i mewn i'r stori a bod yn rhan emosiynol ohoni. Ailadroddwch y sŵn neu'r weithred ar y diwedd i alluogi'r plentyn i adael y stori, ar ôl cymryd rhan lawn ynddi, heb orfod cyfaddawdu mewn unrhyw ffordd.

Felly… trochwch y plant yn y straeon crefyddol mawr, er enghraifft: Yr Wythnos Sanctaidd a'r Pasg; Moses a'r Iraeliaid; Noson Pŵer; Galwad Gwrw Nanak; geni Krishna; Goleuedigaeth y Bwda, a llawer mwy; nid ydynt y tu hwnt i ddealltwriaeth plant ifanc. Dechreuwch yn uniongyrchol heb baratoi, ac eithrio'r ddefod fynediad, ac adroddwch y storïau syml, gan adael iddynt godi cwestiynau am fywydau'r plant eu hunain, er enghraifft:

- Pryd ydych chi wedi bod yn wirioneddol ofnus?
- Sut deimlad yw aros am rywbeth?
- Beth sydd wedi'ch synnu erioed?
- Pwy ydych chi'n ei garu?
- Beth sy'n gwneud mamau yn ofnus?
- O le ydych chi'n meddwl y mae syniadau yn dod?

A mwynhewch!